Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru

Tachwedd 2023

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd
o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Negeseuon allweddol 4

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 7

## Prif adroddiad

1 Nid oedd gan Amgueddfa Cymru bolisïau digonol i ymdrin â phryderon a godwyd gan ei huwch swyddogion a/neu yn erbyn aelod anweithredol o'r Bwrdd 12

2 Fe effeithiodd yr anghydfod cyflogaeth yn anffafriol ar drefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru rhwng mis Medi 2021 a mis Tachwedd 2022, a gyfrannodd at gostau sylweddol a oedd o bosibl yn rhai osgoadwy i helpu i ddirwyn yr anghydfod i ben, gan gynnwys £419,915 hyd yma am wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol eraill 16

3 Roedd proses benderfynu Amgueddfa Cymru ar gyfer datrys yr anghydfod cyflogaeth gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn sylfaenol ddiffygiol am amryw resymau 28

4 Mae telerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol/Swyddog Cyfrifyddu, sy'n cynnwys cyfanswm costau posibl o £325,698, yn fy marn i, yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol ac nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er budd pennaf yr elusen na bod y setliad yn cynrychioli gwerth am arian 28

5 Yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n barti i'r cytundeb setlo a'r anghydfod hirsefydlog a arweiniodd ato, nid yw hi'n glir i mi a ddefnyddiodd yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth hi ei hun i'r cytundeb. 33

# Negeseuon allweddol

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio materion a gododd yn Amgueddfa Cymru.

2 Mae Amgueddfa Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol, ac mae'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth Cymru[1]. Mae hefyd yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn Elusennau, ac felly fe'i rheoleiddir gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Elusennau.

3 Mae gan Lywydd Amgueddfa Cymru gyfrifoldeb ar y cyfan am Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae'n bersonol atebol i Weinidogion Cymru am gynnal materion Amgueddfa Cymru ac am ei Hymddiriedolwyr. Mae'r Llywydd yn benodiad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

4 Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru yw ei phrif weithredwr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Cymru hefyd.

5 Nid wyf wedi gallu f'argyhoeddi fy hun bod ei hymddiriedolwyr wedi cyflawni eu cyfrifoldeb cyfreithiol i wneud penderfyniadau cadarn a gwybodus er budd pennaf Amgueddfa Cymru pan wnaethant:

- benderfynu cymryd rhan mewn proses gyfryngu/trafod telerau gyda'i Chyfarwyddwr Cyffredinol/Swyddog Cyfrifyddu[2];
- penderfynu dirprwyo cyfrifoldeb am gymeradwyo'r trefniadau setlo i ddau ymddiriedolwr; a
- phennu telerau'r trefniadau dirprwyo.

6 Mae gennyf felly amheuaeth sylweddol a wnaeth y broses benderfynu a fydd yn arwain at wneud taliadau i'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol dan delerau cytundeb setlo dyddiedig Rhagfyr 2022, gydymffurfio â chyfraith elusennau, ac a yw'r taliadau a ddeilliodd o'r broses hon, a ddatgelir yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cydymffurfio â'r fframwaith awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Am y rhesymau hyn, ar 29 Medi 2023, fe wnes i amodi fy marn archwilio ynglŷn â 'rheoleidd-dra' Cyfrifon Cyfunol Amgueddfa Cymru 2021-22.

---

1 Er bod Amgueddfa Cymru'n cael ei chydnabod yn elusen mae hefyd yn un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, a hithau wedi cael oddeutu £38.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022-23, sy'n cyfateb i 87% o'i hincwm.

2 Fe'i disgrifir o hyn ymlaen fel y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

7 Fe wnes i hefyd gynnwys datganiad ar 'fater arall' yn fy nhystysgrif archwilio ar gyfrifon Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22 i dynnu sylw at ddatgeliadau a wnaed yn ei Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghylch diffygion sylweddol yn ei threfniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Cododd y diffygion hyn oherwydd methiant sylfaenol ym mherthnasoedd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu/Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol[3] â'r Cyn-Lywydd.

8 Fe wnes i sylw ar y materion llywodraethu hyn mewn adroddiad o ran sylwedd ar Gyfrifon Cyfunol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2020-21 ym mis Ionawr 2022[4]. A hithau'n ymwybodol o'r gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru, fe flaenoriaethodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Amgueddfa Cymru fel rhan o'i rhaglen ehangach o Adolygiadau wedi'u Teilwra ar gyfer ei chyrff hyd braich. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Chwefror 2022.

9 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at anghydfod cyflogaeth a oedd yn cynnwys Amgueddfa Cymru, ei Chyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, ei Chyn-Brif Swyddog Gweithredu, a'i Chyn-Lywydd. Nid yw fy nghylch gwaith yn ymestyn i ddatrys anghydfodau cyflogaeth, ac felly nid wyf yn adrodd ar ei rinweddau nac yn manylu ar bob elfen o'r broses gymhleth a maith i'w ddatrys.

10 Rwyf yn adrodd ar bryderon ynghylch y taliadau a wnaed, ac a fydd yn cael eu gwneud, gan Amgueddfa Cymru i'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol ac amgylchiadau'r taliadau hynny, gan gynnwys yr ymwneud gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru[5]. Fodd bynnag, nid wyf yn adrodd yn fwy cyffredinol ar berfformiad y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol na'r Cyn-Lywydd o ran cyflawni eu priod rolau.

11 Mae fy archwilwyr a minnau wedi archwilio tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol y trefnwyd eu bod ar gael i ni gan Amgueddfa Cymru a lle'r oedd yn angenrheidiol rydym wedi ceisio eglurhad gan Uwch Swyddogion Gweithredol. Rydym hefyd wedi adolygu peth tystiolaeth mewn perthynas â phrosesau Llywodraeth Cymru ond nid ydym wedi archwilio pob agwedd ar ymwneud Llywodraeth Cymru â'r anghydfod cyflogaeth.

12 Rhannodd fy archwilwyr ddrafft o'r adroddiad hwn (neu ddetholiadau ohono), a oedd yn cynnwys canfyddiadau a chasgliadau rhagarweiniol gyda phob parti'n cael y cyfle i wneud sylwadau. Cafodd yr holl sylwadau a gafwyd eu hystyried yn ofalus a lle tybiwyd fod hynny'n angenrheidiol neu o gymorth fe wnaed newidiadau.

3 Fe'i disgrifir o hyn ymlaen fel y Prif Swyddog Gweithredu.

4 Amgueddfa Cymru, Adroddiad Ariannol 2020/21, Ionawr 2022

5 Mae'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu, y Cyn-Lywydd, ac Ymddiriedolwyr eraill (a'u cyfnod gwasanaeth) sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn fel a ddisgrifir yn yr Adran Atebolrwydd o Ddatganiad Cyfrifon Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22.

13 Mae’r casgliadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd. Rwyf wedi gwneud argymhellion ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru.

14 Ochr yn ochr â’m harchwiliad o’r mater hwn, fe wnes i a’m tîm archwilio hefyd ystyried cwmpas a chanfyddiadau ‘Adolygiad wedi’i Deilwra’ Llywodraeth Cymru, y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Gorffennaf 2023[6]. Fe wnaeth yr adroddiad ar yr Adolygiad wedi’i Deilwra 77 o argymhellion yr oedd 27 ohonynt yn ymwneud â threfniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru.

6 Panel yr Adolygiad wedi’i Deilwra, Amgueddfa Cymru, Adroddiad terfynol Panel yr Adolygiad wedi’i Deilwra, Gorffennaf 2023

# Canfyddiadau allweddol

15 Yn ogystal â'r methiannau difrifol mewn trefniadau llywodraethu y cyfeirir atynt uchod ac y rhoddwyd sylw iddynt yn fy adroddiad o sylwedd ar gyfrifon Amgueddfa Cymru ar gyfer 2020-21 ac yn fy marn archwilio amodol ar gyfrifon 2021-22, mae materion eraill yr wyf o'r farn y byddai er budd y cyhoedd fy mod yn eu dwyn i sylw'r cyhoedd. Yn arbennig:

- mae telerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn sylweddol ac, yn fy marn i, yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol. Nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er ei budd pennaf fel elusen na bod y setliad yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.
- nid yw'n glir i mi a gymhwysodd Llywodraeth Cymru'r holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth hi ei hun i'r cytundeb.
- mae'r gost bosibl ar y cyfan ar gyfer y setliad arfaethedig gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, ymddeoliad y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu oherwydd afiechyd a'r ffioedd cyfreithiol ac ymgynghorol a ddeilliodd o hynny ar y cyfan yn uwch na £750,000. Gellid bod wedi osgoi rhai neu'r cyfan o'r costau hyn.

16 Ymhelaethir ar y materion hyn isod ac yng nghorff yr adroddiad hwn.

### Yr anghydfod cyflogaeth

17 Ym mis Mehefin 2021, fe gyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu gwynion ar wahân i Lywodraeth Cymru, a oedd yn ymwneud â gweithredoedd ac ymddygiad amhriodol honedig ar ran Cyn-Lywydd Amgueddfa Cymru.

18 Ar y pryd, nid oedd gan Amgueddfa Cymru bolisïau digonol i ymdrin â phryderon a fyddai'n cael eu codi gan ei huwch swyddogion a/neu yn erbyn aelod anweithredol o'r Bwrdd. Fe ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'r ddwy gŵyn dan ei phroses ymdrin â chwynion ei hun am bod y Cyn-Lywydd wedi cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru.

19 Cyflwynodd y ddau swyddog gwynion cyflogaeth i Amgueddfa Cymru ym mis Medi 2021 hefyd ac, ym mis Hydref 2021, cyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol honiadau i Dribiwnlys Cyflogaeth Cymru yn erbyn tri ymatebydd, sef Amgueddfa Cymru, Cyn-Lywydd Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru.

20 Cyflwynwyd y cwynion i Lywodraeth Cymru yn dilyn tensiynau cynharach ym mherthnasoedd y ddau swyddog â'r Cyn-Lywydd. Effeithiodd yr anghydfod cyflogaeth yn anffafriol ar drefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru rhwng mis Medi 2021 a mis Tachwedd 2022, a gyfrannodd at wariant a oedd yn sylweddol ac a allai fod wedi bod yn osgoadwy i helpu i ddod â'r anghydfod i ben.

21 Penododd Llywodraeth Cymru ymchwiliwr annibynnol i archwilio'r cwynion. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliwr ym mis Tachwedd 2021. Er na chanfu fod y Llywydd ar y pryd yn amlwg wedi torri amodau ei benodiad, canfu nad oedd ei ymddygiad wastad wedi cyrraedd y safonau uchaf a bod ei weithredoedd wedi ei adael yn agored i gyhuddiadau nad oedd wastad wedi bod mod wrthrychol ac agored ag y gallai fod wedi bod.

22 Ym mis Ionawr 2022, fe gyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu gwynion cyflogaeth pellach i Amgueddfa Cymru mewn perthynas â honiadau ganddynt am fwlio a thriniaeth wahaniaethol gan y Cyn-Lywydd. Yn dilyn proses gyfryngu ym mis Mehefin 2022, fe ymddeolodd y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu ar sail afiechyd ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022 ac fe gafodd daliad i setlo unrhyw hawliad posibl a allai fod wedi bod ganddo yn erbyn Amgueddfa Cymru. Ni wnaethom adnabod unrhyw bryderon ynghylch y broses benderfynu a arweiniodd at y taliad hwnnw.

23 Ym mis Awst 2022, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd hawliad arall i dribiwnlys cyflogaeth. Er bod cefndir yr hawliad yn debyg o ran natur, roedd ail hawliad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys honiadau o erledigaeth, gwahaniaethu ar sail anabledd a dioddef anfantais o ganlyniad i wneud datgeliadau a ddiogelir. Dim ond yn erbyn Amgueddfa Cymru a'i Chyn-Lywydd yr oedd yr ail hawliad hwn a gyflwynwyd i'r tribiwnlys.

24 Dechreuodd Amgueddfa Cymru broses gyfryngu gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Hydref 2022. Roedd y Cyn-Lywydd a Llywodraeth Cymru'n bartïon i'r broses hon hefyd.

25 Roedd proses benderfynu Amgueddfa Cymru ar gyfer datrys yr anghydfod cyflogaeth gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn sylfaenol ddiffygiol am amryw resymau, fel a nodir yn rhan 3 o'r adroddiad hwn.

### Cytundeb setlo'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol

26 Fe arweiniodd y broses gyfryngu yn y pen draw at gytundeb setlo ar 5 Rhagfyr 2022, ac o ganlyniad i hynny fe dynnwyd y ddau hawliad a oedd wedi'u cyflwyno i'r tribiwnlys yn ôl ac fe gytunodd y Llywydd ar y pryd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd i ddod â'u penodiadau gydag Amgueddfa Cymru i ben. Llofnodwyd y cytundeb setlo gan y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Lywydd yn eu cymwysterau personol, gan Is-Lywydd Amgueddfa Cymru ar ran Amgueddfa Cymru, a chan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

27 Mae telerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn sylweddol ac, yn fy marn i, yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol. Nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er ei budd pennaf fel elusen na bod y setliad yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.

28 Yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n barti i'r cytundeb setlo a'r anghydfod hirsefydlog a arweiniodd ato, nid yw hi'n glir i mi a ddefnyddiodd hi'r holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth hi ei hun i'r cytundeb (gweler Rhan 5 o'r adroddiad hwn).

29 Fel rhan o'r cytundeb setlo mae'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol mewn cyfnod rhybudd ar hyn o bryd tan fis Medi 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae ar 'absenoldeb sabothol'. Teitl ei swydd yw 'Cymrawd Emeritws yr Amgueddfa' ac nid yw'n cyflawni rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol mwyach.

30 Fel rhan o'r cytundeb, fe gamodd y Llywydd yn ôl o'i rôl o 17 Tachwedd 2022 ac fe roddodd y gorau i'w swydd ar 31 Rhagfyr 2022, dri mis yn gynharach nag yr oedd ei dymor i fod i ddod i ben.

31 Ym mis Chwefror 2023, yn dilyn y cytundeb, fe wnaeth y swyddog ymchwilio i gwynion cyflogaeth annibynnol a benodwyd i ystyried cwynion cyflogaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad. Ni chanfu'r adroddiad fod y Cyn-Lywydd wedi torri egwyddorion Nolan[7] (Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus) er iddo gadarnhau rhai agweddau ar y cwynion cyflogaeth (Gweler **paragraff 49**).

7 Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, ATEBOLRWYDD, BOD YN AGORED, GONESTRWYDD AC ARWEINYDDIAETH

## Costau'n codi o'r anghydfod cyflogaeth

32 O ran y sefyllfa ar 22 Awst 2023, roedd cost bosibl y setliad arfaethedig gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, ymddeoliad y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu oherwydd afiechyd a'r ffioedd cyfreithiol ac ymgynghorol a ddeilliodd o hynny ar y cyfan yn £757,613. O hyn, mae Amgueddfa Cymru'n disgwyl gallu adennill £131,230 trwy yswiriant, gan olygu mai £626,383 yw›r gost i bwrs y wlad. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr holl gostau cysylltiedig (gweler **paragraff 36**)

33 Mae manylion elfennau unigol y ffigwr o £757,613 fel a ganlyn:

- setliad y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol: costau posibl o £325,698:
  - cyflog o £39,794 a chyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol o £13,079 ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023;
  - cyflog o £130,073 a chyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol o £42,752 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024[8];
  - £50,000 yn ddi-dreth fel digollediad am niwed i'w deimladau;
  - uchafswm treuliau o £30,000 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024[9];
  - taliad o £20,000 am golli swydd ar 30 Medi 2024.
- y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu: £12,000 ar ymddeoliad oherwydd afiechyd ar 31 Gorffennaf 2022 i setlo unrhyw hawliad posibl yn erbyn Amgueddfa Cymru.
- gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol eraill allanol: £419,915 hyd yma.

34 Mae'r cyfraniad disgwyliedig o yswiriant yn cynnwys £38,000 a dalwyd eisoes tuag at ddigollediad am niwed i deimladau a £93,230 disgwyliedig tuag at gostau gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol allanol.

35 Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £40,500 tuag at y costau ar y cyfan a nodir uchod. O hyn, mae £20,500 yn gyfraniad tuag at wasanaethau allanol ar gyfer y broses gyfryngu ac mae £10,000 tuag at y digollediad am niwed i deimladau. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £10,000 tuag at y taliad am golli swydd hefyd.

8 Mae'r holl gostau cyflogau'n seiliedig ar gyfraddau cyflogau 2022-23 ac yn amodol ar chwyddiant cyflogau.

9 Teithio a chynhaliaeth, a threuliau gweinyddol eraill (yn amodol ar ddarparu anfonebau priodol - o ran y sefyllfa ar 22 Awst 2023, nid oedd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi gwneud hawliad am dreuliau).

36 Nid yw’r costau uchod yn cynnwys yr amser a dreuliwyd gan uwch aelodau o staff Amgueddfa Cymru’n ymdrin â’r materion, costau canlyniadol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amser swyddogion, na fy ffi archwilio ychwanegol i. Nid ydynt ychwaith yn cynnwys costau sy’n deillio o recriwtio ymddiriedolwyr a staff newydd ar gyfer Amgueddfa Cymru, na chost cyflogi’r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn ystod y cyfnod pan oedd wedi camu’n ôl o’r rôl rhwng 17 Tachwedd 2022 a 31 Rhagfyr 2022. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw dreuliau ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn y cyfnod rhwng 17 Tachwedd a 31 Mawrth 2023 ychwaith.

## Nid oedd gan Amgueddfa Cymru bolisïau digonol i ymdrin â phryderon a godwyd gan ei swyddogion uchaf eu rheng a/neu yn erbyn aelod anweithredol o'r Bwrdd

37 Ym mis Mehefin 2021, cyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu gwynion ar wahân i Lywodraeth Cymru, a oedd yn ymwneud â gweithredu ac ymddygiad amhriodol honedig ar ran y Cyn-Lywydd. Roedd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu o'r farn bod peth o ymddygiad y Cyn-Lywydd tuag atynt yn gyfystyr â bwlio a gwahaniaethu. Daeth y cwynion yn dilyn tensiynau cynharach yn y perthnasoedd â'r Cyn-Lywydd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod, ar ôl cael y cwynion, ac ar sawl achlysur ar ôl hynny, wedi cynnig y cyfle i'r ddau achwynydd ddatrys yr anghydfod yn anffurfiol, ond na dderbyniwyd y cynigion.

38 Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig bod gan gyrff cyhoeddus drefniadau anffurfiol a ffurfiol i ddatrys materion yn gynnar, atal materion rhag gwaethygu ac osgoi methiant perthnasoedd. Roedd gan Amgueddfa Cymru bolisi a gweithdrefn cwynion cyflogaeth sefydledig ond dim ond I i staff a oedd yn cael eu cyflogi gan Amgueddfa Cymru yr oedd yn berthnasol. Nid oedd yn ddigonol i ymdrin â chwynion y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu am y rhesymau canlynol:

- roedd y polisi'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o staff a oedd yn dymuno codi cwyn gyflogaeth yn ffurfiol wneud hynny trwy gyfleu'r gŵyn yn ysgrifenedig i'w reolwr uniongyrchol. Pan oedd y gŵyn gyflogaeth yn erbyn y rheolwr, roedd y polisi'n ei gwneud yn ofynnol codi'r mater gyda rheolwr ar reng uwch. Fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, nid oedd gan y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol reolwr ar reng uwch i godi cwyn gyflogaeth yn ffurfiol gydag ef/gyda hi.
- byddai wedi bod yn ofynnol i'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu gyflwyno ei gwynion cyflogaeth i'w reolwr llinell, y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, a fyddai, yn fy marn i, wedi bod mewn sefyllfa o wrthdaro buddiannau, gan bod eu pryderon o natur debyg.
- nid oedd y polisi cwynion cyflogaeth yn nodi pa broses ddylid bod wedi ei dilyn os oedd cwyn gyflogaeth yn ymwneud ag aelod anweithredol o'r Bwrdd.

39 Er nad oedd y polisi cwynion cyflogaeth yn darparu llwybr ar gyfer ystyried eu cwynion cyflogaeth, ar 2 Medi 2021 cyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a’r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu gwynion cyflogaeth i Bennaeth Adnoddau Dynol Amgueddfa Cymru. Cydnabu Amgueddfa Cymru fod sylwedd y cwynion cyflogaeth yn debyg i sylwedd eu cwynion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac felly gofynnodd i’r achwynwyr ddisgwyl am ganlyniad y cwynion a gyflëwyd i Lywodraeth Cymru.

40 Roedd Amgueddfa Cymru’n disgwyl y byddai hyn yn rhoi amser iddi ddatblygu polisi newydd ar gyfer cwynion cyflogaeth gan uwch swyddogion, a fyddai’n addas ar gyfer ystyried a phenderfynu ar gwynion cyflogaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a’r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu.

41 Cytunodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a’r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu â’r cais hwn ond fe ofynnon nhw am wneud ‘addasiadau rhesymol’ yn y gweithle, gan gynnwys lleihau rhyngweithiadau uniongyrchol rhwng y Cyn-Lywydd, y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a’r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu.

42 Rwyf fi o’r farn bod yr addasiadau hyn wedi cael effaith niweidiol ar drefniadau llywodraethu cyffredinol Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae’r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi dweud wrth fy archwilwyr nad yr addasiadau a achosodd i’r Bwrdd gael ei lywodraethu’n wael a’i fod ef wedi bod yn codi pryderon llywodraethu gyda Llywydd Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru heb lwyddiant ers mis Rhagfyr 2020. Dywedodd wrthym ei fod wedi:

> ‘cwyno wrth Lywodraeth Cymru, ac yna wedi codi cwyn gyflogaeth gyda’r Amgueddfa, gan bod pob ymdrech flaenorol i ddatrys pryderon llywodraethu yn anffurfiol rhyngof fi, [y Prif Swyddog Gweithredu], a’r Uwch Dîm Gweithredol, a’r Swyddogion, wedi bod yn ofer’.

43 Mae’r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi darparu sawl eitem o ohebiaeth i mi yn cadarnhau ei fod wedi bod yn codi pryderon llywodraethu yn fewnol a chyda Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, nodaf ei fod wedi codi ei bryderon bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cwrdd mewn sesiwn gaeëdig heb i swyddogion fod yn bresennol a bod hynny’n groes i Reoliadau’r Bwrdd ond ei fod wedi cael gwybod gan y Cyn-Lywydd nad oedd rôl ganddo mewn materion llywodraethu.

44 Yn fy marn i, er na fyddai wedi bod yn briodol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fynychu cyfarfodydd am ei gwynion cyflogaeth, mae'n anodd gweld sut y gallai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol fel Swyddog Cyfrifyddu heb fynychu cyfarfodydd eraill y Bwrdd. Felly, ni ddylai Bwrdd Amgueddfa Cymru fod wedi cytuno â'r addasiadau y gofynnwyd amdanynt a dylai fod wedi ceisio dull amgen o fynd i'r afael â'r methiant mewn perthnasoedd.

45 Gofynnodd fy archwilwyr i Lywodraeth Cymru sut yr ymdriniwyd â phryderon y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch llywodraethu. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr ei bod wedi ceisio ymdrin â phryderon trwy gynnig proses gyfryngu anffurfiol, cynnal cyfarfodydd diweddaru wythnosol rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd a Phennaeth Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru a chynnal cyswllt rheolaidd â'r Llywydd ar y pryd. Ar ben hynny, fe ddaeth Llywodraeth Cymru ag adolygiad wedi'i deilwra o drefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru ymlaen i fis Awst 2022 gan gyhoeddi'r adroddiad arno ym mis Gorffennaf 2023, a hwnnw'n nodi nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r trefniadau a oedd yn bodoli eisoes.

46 Dywedodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wrth fy archwilwyr ei fod wedi bod yn codi pryderon difrifol mor gynnar ag ym mis Rhagfyr 2020, ac mae wedi darparu copïau ar gyfer fy archwilwyr o ohebiaeth a anfonodd at Lywodraeth Cymru o fis Mai 2021 ymlaen yn codi pryderon ynghylch llywodraethu. Fe wnaeth yr adroddiad ar yr adolygiad wedi'i deilwra a gyhoeddwyd yn 2023 (**paragraff 45**) nodi pryderon ynghylch llywodraethu a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Yn fy marn i roedd yr amser yr oedd ei angen i gynnal adolygiad mor eang ei gwmpas, fel y gellid disgwyl, yn golygu bod angen camau gweithredu mwy disyfyd hefyd.

47 Yn ystod y cyfnod y mae a wnelo'r adroddiad hwn ag ef, roedd gan Amgueddfa Cymru bolisi chwythu'r chwiban i alluogi cyflogeion i godi pryderon am gamweddau yn y gwaith. A minnau wedi adolygu'r polisi a oedd ar waith ar y pryd, yn fy marn i, roedd angen i bolisi chwythu'r chwiban fod yn fwy eglur ynglŷn â'r llwybrau a oedd yn agored i staff godi pryderon am weithredoedd aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

48 Roedd y polisi'n nodi y gallai cyflogeion wneud datgeliadau chwythu'r chwiban wrth y Trysorydd neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a oedd ill dau'n ymddiriedolwyr, ond nid oedd yn cyfeirio at y ffaith y gallai cyflogeion wneud datgeliadau yn uniongyrchol wrth Lywodraeth Cymru fel noddwr Amgueddfa Cymru, nac wrth Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr nac wrthyf fi fy hun fel 'person rhagnodedig' i gael datgeliadau. Er fy mod yn derbyn bod y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi codi sawl pryder ynghylch llywodraethu, yn anorfod cafodd yr addasiadau y gofynnodd ef amdanynt, a oedd yn golygu na fyddai ef na'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau (boed yn y cnawd neu'n rhithwir), effaith anffafriol bellach ar drefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru.

49 Ym mis Chwefror 2023, ar ôl cytuno ar setliad gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, cyhoeddodd y swyddog ymchwilio i gwynion cyflogaeth annibynnol a benodwyd i ystyried cwynion cyflogaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu ei adroddiad. Ni chanfu'r adroddiad fod y Cyn-Lywydd wedi torri egwyddorion Nolan (Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus). Ni chadarnhaodd yr adroddiad lawer o'r cwynion cyflogaeth, ond fe wnaeth gadarnhau rhai agweddau ar y cwynion cyflogaeth yn rhannol neu'n llawn, gan gynnwys:

- Fe wnaeth y Cyn-Lywydd danseilio'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Gweithredu a staff eraill yn gyhoeddus ac yn breifat pan alwyd cyfarfodydd yn groes i reoliadau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Cynhaliodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sesiynau caeëdig heb i swyddogion, gan gynnwys y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu, gael gwahoddiad i fod yn bresennol ynddynt a methodd ag adneuo cofnodion ac agendâu'r cyfarfodydd caeëdig.
- Fe wnaeth y Cyn-Lywydd danseilio'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol trwy awgrymu mewn e-bost a anfonodd ato ar 21 Mai 2021 ei fod yn anghywir am yr hyn yr oedd yn ei haeru mewn perthynas â chyfarfodydd caeëdig, ac nad oedd rôl ganddo ef mewn materion llywodraethu.
- Ar rai achlysuron a nodir yn yr adroddiad, torrodd gweithredoedd y Cyn-Lywydd yr ymddiriedolaeth sy'n hanfodol rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r staff.

## Fe effeithiodd yr anghydfod cyflogaeth yn anffafriol ar drefniadau llywodraethu Amgueddfa Cymru rhwng mis Medi 2021 a mis Tachwedd 2022, a gyfrannodd at gostau sylweddol a oedd o bosibl yn rhai osgoadwy i helpu i ddirwyn yr anghydfod i ben, gan gynnwys £419,915 hyd yma am wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol eraill

50 Oherwydd yr addasiadau yn y gweithle y cytunwyd arnynt, ni chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Mai 2022. Cynhaliwyd busnes y Bwrdd trwy e-bost. Os oedd gan aelodau'r Bwrdd gwestiynau am un o bapurau'r Bwrdd, roedd gofyn iddynt anfon y cwestiwn at Ysgrifennydd y Bwrdd, a fyddai'n anfon yr ymholiad ymlaen at yr adran berthnasol gydag ymateb yn cael ei ddarparu i'r cychwynnwr wedyn trwy e-bost. Mae Amgueddfa Cymru wedi dweud wrth fy archwilwyr bod rhai cyfarfodydd wedi digwydd yn y cyfnod hwn, er enghraifft ym mis Ionawr 2022; fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw gofnodion ysgrifenedig.

51 Nid yw dogfennau Llywodraethu Amgueddfa Cymru - y Siarter Frenhinol a'r Statudau - yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i'r Bwrdd wneud penderfyniadau trwy e-bost y tu allan i gyfarfodydd. Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir y tu allan i un o gyfarfodydd y Bwrdd gael ei wneud trwy drefnu bod holl aelodau'r Bwrdd yn llofnodi penderfyniad ysgrifenedig i'w gymeradwyo.

52 Er i'r Bwrdd gydsynio â'r trefniadau e-bost hyn, yn fy marn i roeddent yn gyfystyr ag arfer llywodraethu gwael gan gael effaith niweidiol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd, a'i allu i weithredu prosesau penderfynu priodol. Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o farn pobl eraill ac felly ni allent wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gyfunol, a arweiniodd at ddiffyg trefn briodol i graffu ar y cyd ar benderfyniadau.

53 Roedd y trefniadau hyn hefyd yn rhwystro gallu'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol i arfer ei rôl yn iawn fel Swyddog Cyfrifyddu, a nodir yn nogfen fframwaith Amgueddfa Cymru, gan gynnwys:

- sicrhau bod problemau sylweddol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r adran noddi [yn Llywodraeth Cymru] cyn gynted â phosibl; a;

- darparu pa bynnag wybodaeth ar gyfer yr adran noddi am berfformiad a gwariant [Amgueddfa Cymru] y gall yr adran noddi'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol ei darparu;
- Cyfrifoldebau mewn perthynas â Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa...
  - cynghori'r Bwrdd ynghylch cyflawni ei gyfrifoldebau fel a nodir yn y ddogfen [fframwaith], mewn deddfwriaeth berthnasol, yn llythyr Cylch Gwaith blynyddol y Gweinidog neu mewn cyfathrebiad arall; ac unrhyw ganllawiau eraill a all gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.
  - cynghori'r bwrdd ynghylch perfformiad yr Amgueddfa yn erbyn ei nodau a'i hamcanion;
  - sicrhau bod ystyriaethau ariannol ac ystyriaethau eraill yn cael sylw llawn gan y bwrdd ar bob cam wrth ddod i benderfyniadau a rhoi ei benderfyniadau ar waith a bod technegau arfarnu ariannol addas yn cael eu dilyn;
  - gweithredu fel y bo'n briodol yn unol â thelerau memorandwm y swyddog cyfrifyddu os yw'r bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried dull gweithredu sy'n cynnwys trafodiad y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol o'r farn y byddai'n tramgwyddo ar y gofynion ar gyfer uniondeb neu reoleidd-dra, neu nad yw'n gyfystyr â gweinyddu doeth neu ddarbodus, neu, effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd, neu sy'n amheus o ran ei ddichonoldeb neu sy'n anfoesegol.

54 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Tachwedd 2022, cynhaliodd yr Ymddiriedolwyr gyfarfodydd ar-lein yn benodol i drafod canlyniadau parhaus y cwynion cyflogaeth a godwyd gan y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu. Dywedodd y Cyn-Lywydd wrth fy archwilwyr na fu'n rhan o'r trafodaethau hyn.

55 Ni chadwyd unrhyw gofnodion cyfoes o'r cyfarfodydd ac nid oedd cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniadau a wnaed. Felly nid yw'n glir beth a drafodwyd, pa wybodaeth a ddarparwyd i'r Ymddiriedolwyr, a pha benderfyniadau a wnaed, os o gwbl.

56 Daeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu'n ymwybodol bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, cawsant eu gwahardd rhag cymryd rhan ac ni chawsant weld unrhyw bapurau cyfarfodydd, gan arwain at gynnydd yn y diffyg ymddiriedaeth rhyngddynt a'r Bwrdd.

57 O fis Hydref 2021, fe barhaodd yr anghydfod cyflogaeth i ddwysáu gan arwain at benodi ymgynghorwyr cyfreithiol gan Amgueddfa Cymru i gynghori ar y materion cyflogaeth ac ar faterion llywodraethu cysylltiedig. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r digwyddiadau allweddol a fu rhwng mis Hydref 2021 a mis Awst 2022.

**Arddangosyn 1: cronoleg o ddyddiadau allweddol mewn perthynas â'r anghydfod cyflogaeth, rhwng mis Hydref 2021 a mis Awst 2022**

| Dyddiad / cyfnod* | Digwyddiad |
|---|---|
| 1 Hydref 2021 | Penododd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ymgynghorydd cyfreithiol o fframwaith caffael Llywodraeth Cymru i:<br>• adolygu dogfennau llywodraethu, polisïau a dogfennau cysylltiedig perthnasol;<br>• cynghori'r Ymddiriedolwyr ynghylch sut y gallant barhau i weithredu'r Amgueddfa;<br>• cynghori'r Ymddiriedolwyr ar gyflwyno hysbysiad am ddigwyddiad difrifol i'r Comisiwn Elusennau a materion cysylltiedig;<br>• cynghori mewn perthynas ag ymateb i'r cwynion cyflogaeth a pha gamau gweithredu y gall yr Ymddiriedolwyr eu cymryd; a<br>• chynghori trwy gydol yr anghydfod parhaus.<br>Mae'r Cyn-Lywydd wedi dweud nad oedd yn rhan o'r broses gaffael. |
| 8 Hydref 2021 | Cyflwynodd y cynghorwyr cyfreithiol a benodwyd ar 1 Hydref 2021 Adroddiad Digwyddiad Difrifol i'r Comisiwn Elusennau ar ran Amgueddfa Cymru.<br>Anfonwyd ail Adroddiad Digwyddiad Difrifol i'r Comisiwn Elusennau ar 13 Hydref 2023. |
| 25 Hydref 2021 | Cyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol hawliad i dribiwnlys cyflogaeth yn erbyn Amgueddfa Cymru, ei Chyn-Lywydd a Llywodraeth Cymru. Roedd yr hawliad yn debyg o ran natur i gŵyn gynharach y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol i Lywodraeth Cymru a'i gŵyn gyflogaeth i Amgueddfa Cymru. |

| Dyddiad / cyfnod* | Digwyddiad |
|---|---|
| 30 Tachwedd 2021 | Cyflwynodd yr ymchwiliwr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio cwynion a wnaed gan y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu adroddiad ar ei chanfyddiadau a'i chasgliadau.<br>Canfu fel a ganlyn:<br>• 'Ceir canfyddiadau yn yr adroddiad hwn bod y Llywydd mewn rhai ffyrdd wedi tanseilio'r Uwch Dîm Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Mae wedi rhoi pwysau gormodol ar y Cyfarwyddwr Cyffredinol i ymddiswyddo. Mae hefyd, trwy ei weithredoedd, wedi gadael ei hun yn agored i amheuon nad yw wedi bod yn gwbl agored gyda'r Pwyllgor Gwaith na'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, cafwyd ymdeimlad bod y ddwy ochr yn glynu at safbwyntiau, gyda'r gwahanol bartïon yn canolbwyntio ar hyrwyddo'u barn eu hunain pan allai cyfaddawd fod wedi bod er budd pennaf yr Amgueddfa.''<br>• 'Hefyd gallai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol fod wedi codi eu pryderon yn ffurfiol ar adeg gynharach a chanfyddir y dylai'r Llywydd fod wedi rhoi mwy o sylw i gwynion a godwyd yn anffurfiol.' |
| 7 Ionawr 2022 | Ysgrifennodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol at y Comisiwn Elusennau gan amlygu na chytunwyd ar eiriad terfynol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a allai olygu y byddai Amgueddfa Cymru'n colli'r dyddiad cau, sef 31 Ionawr, ar gyfer cyflwyno'i Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a bod materion llywodraethu yr oedd angen eu datrys. |
| 19 Ionawr 2022 | Penododd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ymgynghorydd cyfreithiol pellach trwy'r fframwaith caffael i roi cyngor ar yr anghydfod cyflogaeth.<br>Mae'r Cyn-Lywydd wedi dweud na fu'n rhan o'r broses gaffael. |
| 20 Ionawr 2022 | Cyflwynodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu ill dau gwynion cyflogaeth pellach i Amgueddfa Cymru. |

| Dyddiad / cyfnod* | Digwyddiad |
|---|---|
| 11 Chwefror 2022 | Cafodd Amgueddfa Cymru lythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip yn dilyn ei hystyriaeth i'r canfyddiadau a gododd o ymchwiliad Llywodraeth Cymru ei hun i'r cwynion a wnaed.<br>Roedd y llythyr yn ei gwneud yn glir na fyddai canfyddiadau'r ymchwiliad yn cael eu rhannu gydag Amgueddfa Cymru tra bo hawliad tribiwnlys cyflogaeth yn dal i fynd rhagddo.<br>Mae llythyr y Dirprwy Weinidog yn nodi camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd yng ngoleuni canfyddiadau'r ymchwiliad. Nododd ei disgwyliad y byddai Amgueddfa Cymru'n prysuro'r broses cwynion cyflogaeth ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu. Rhoddodd wybod i Amgueddfa Cymru hefyd y byddai: 'yn cofrestru fy mhryderon difrifol ynghylch gweithrediad presennol yr Amgueddfa gyda'r Comisiwn [Elusennau] ac yn gwahodd y Comisiwn i arfer ei bwerau rheoleiddio statudol.' |
| 10 Mawrth 2022 | Mabwysiadodd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru '... bolisi cwynion cyflogaeth ar gyfer uwch unigolion' a oedd yn gwneud darpariaeth i 'unigolyn godi materion ynghylch eu cyflogaeth, gweithredoedd cyd-gyflogeion neu weithredoedd Swyddogion neu Ymddiriedolwyr y Bwrdd sy'n effeithio arnynt'.<br>Mae'r polisi'n nodi'r broses y dylai uwch swyddogion ei dilyn pe baent yn gwneud cwyn gyflogaeth, ac roedd hefyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymchwilio'n annibynnol i gwynion cyflogaeth o'r fath a phroses apelio annibynnol. |
| 23 Mawrth 2022 | Cytunodd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru i benodi ymchwiliwr annibynnol i ymchwilio i gwynion cyflogaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu. |
| 23 Mehefin 2022 | Cynhaliwyd proses gyfryngu i ddatrys yr anghydfod a oedd yn ymwneud â'r Cyn-Brif Swyddog Gweithredu. |
| 31 Gorffennaf 2022 | Ymddeolodd y Cyn-Brif Swyddog Gweithredu a chafodd daliad o £12,000 gan Amgueddfa Cymru i setlo unrhyw hawliad posibl a allai fod wedi bod ganddo yn erbyn Amgueddfa Cymru a chafodd hefyd daliad cytundebol o chwe mis o gyflog yn lle rhybudd.<br>Cafodd y taliad sêl bendith Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru. Ni chanfuom unrhyw bryderon gyda'r broses benderfynu a arweiniodd at y taliad hwnnw. |

| Dyddiad / cyfnod* | Digwyddiad |
|---|---|
| 12 Awst 2022 | Cafodd Amgueddfa Cymru gadarnhad bod y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi cyflwyno ail hawliad i'r tribiwnlys cyflogaeth.<br>Dim ond yn erbyn Amgueddfa Cymru a'i Llywydd yr oedd yr hawliad hwn. Er bod cefndir yr hawliadau'n debyg o ran natur, roedd yr hawliad hwn yn nodi anfantais o ganlyniad i chwythu'r chwiban, erledigaeth a gwahaniaethu ar sail anabledd (methu â gwneud addasiadau rhesymol). |
| Diwedd mis Awst 2022 | Anfonodd Uwch Dîm Gweithredol Amgueddfa Cymru lythyr at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i ofyn am ddatrysiad i'r sefyllfa cyn gynted â phosibl. Cadarnhaodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu bod wedi ysgrifennu llythyr at y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol i erfyn arno i gymryd rhan mewn proses gyfryngu fel y gallai'r ddwy ochr ddatrys yr anghydfod, ac y gallai'r sefydliad symud ymlaen. |

58 Fe wnaeth methiant Amgueddfa Cymru i fod â threfniadau priodol ac amserol i'w galluogi i archwilio a datrys y pryderon llywodraethu a godwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd ac yna'r Prif Swyddog Gweithredu yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Hydref 2021 achosi i'r sefyllfa ddwysáu, i berthnasoedd ddirywio ac at beryglu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithrediadau Amgueddfa Cymru. Yn fy marn i, cyfrannodd y diffygion hyn mewn trefniadau llywodraethu at gostau a oedd yn sylweddol ac a oedd o bosibl yn osgoadwy.

59 Mae rhan pedwar o'r adroddiad hwn yn ystyried costau a gododd o delerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol. Ar wahân i hyn, mae Amgueddfa Cymru wedi rhoi dadansoddiad i'm harchwilwyr o'i gwariant ar wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol eraill allanol a oedd yn ymwneud â'r anghydfod cyflogaeth. £419,915 yw'r cyfanswm hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r costau yr adroddir arnynt uchod wedi dod i ran Amgueddfa Cymru. Serch hynny, mae Amgueddfa Cymru bellach yn disgwyl adennill £93,230 o'r costau trwy yswiriant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu £20,500 at gostau a oedd yn gysylltiedig â'r broses gyfryngu (gweler **paragraff 119 a throednodyn 17**).

## Roedd proses benderfynu Amgueddfa Cymru ar gyfer datrys yr anghydfod cyflogaeth gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn sylfaenol ddiffygiol am amryw resymau.

60 Dywedodd y Cyn-Lywydd wrth fy archwilwyr ei fod, mor gynnar â mis Gorffennaf 2021, wedi cynnig cynnal proses gyfryngu; fodd bynnag roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd a'r Prif Swyddog Gweithredu ar y pryd wedi gwrthod cytuno â'r cynnig.

61 Mae'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod ef, Llywodraeth Cymru, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llywydd i gyd wedi cytuno ym mis Mai 2022 i gymryd rhan mewn proses cyfryngu barnwrol (h.y. proses gyfryngu gyda barnwr Tribiwnlys Cyflogaeth yn llywyddu) ym mis Tachwedd 2022. Fodd bynnag, mae Amgueddfa Cymru'n haeru, er bod cyfryngu barnwrol wedi cael ei gynnig ym mis Mawrth 2022, na chydsyniodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol â hyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr iddi wneud sawl cynnig o gyfryngu mewn perthynas â'r anghydfod.

62 Ar ôl cael llythyr Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Awst 2022 (gweler Arddangosiad 1), cytunodd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol i gymryd rhan mewn math arall o gyfryngu ar yr amod y gallai ddewis y cyfryngwr. O ystyried y sefyllfa a'r angen i ddatrys y mater, cytunodd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru mewn egwyddor i benodi a thalu costau cyfryngwr a ddewiswyd gan y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

63 Ar 28 Medi 2022, cyfarfu Pennaeth Adnoddau Dynol Amgueddfa Cymru a'i hymgynghorydd cyfreithiol allanol â chyfryngwr enwebedig y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol. Yn dilyn y cyfarfod penodwyd ei gyfryngwr enwebedig a dechreuodd y broses gyfryngu ym mis Hydref 2022.

64 Nid yw hi'n glir i mi ai Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru ynteu swyddogion Amgueddfa Cymru wnaeth y penderfyniadau i ymrwymo i'r broses gyfryngu a phenodi cyfryngwr enwebedig y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol. Nid yw hi'n glir i mi ychwaith pryd yn union y gwnaed y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru wedi cwrdd ar 5 Hydref 2022 i ystyried y materion hyn. Mae cofnodion y cyfarfod yn cofnodi bod y Llywydd ar y pryd wedi camu'n ôl o'i swydd yn wirfoddol. Mae'r Llywydd ar y pryd wedi dweud wrth fy archwilwyr na fu'n rhan o broses benderfynu ddiweddarach Amgueddfa Cymru ynghylch datrys yr anghydfod ychwaith ac rwy'n derbyn mai felly yr oedd hi. Roedd y cyfarfod ar 5 Hydref yn un arall mewn cyfres o gyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau yn yr anghydfod cyflogaeth. Ni ddarparwyd unrhyw bapurau i aelodau'r Bwrdd i oleuo eu trafodaethau a'u penderfyniadau.

65 Pan ofynnodd fy archwilwyr, ym mis Mehefin 2023, am gael gweld cofnodion y cyfarfod ar 5 Hydref 2022, drafftiodd Amgueddfa Cymru gofnodion ôl-weithredol o'r cyfarfod (ryw wyth mis ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal). Roedd y cofnodion yn cofnodi bod ymgynghorwyr cyfreithiol allanol Amgueddfa Cymru:

'wedi rhoi diweddariad i'r Ymddiriedolwyr ynghylch cynigion ar gyfer cyfryngu. Y mater a oedd o'r pwys mwyaf uniongyrchol oedd bod y Bwrdd yn cadarnhau pwy ddylai gynrychioli'r Amgueddfa [Amgueddfa Cymru] yn y broses gyfryngu ac yn dirprwyo awdurdod i'r cynrychiolwyr hynny gan ganiatáu iddynt rwymo'r Amgueddfa i unrhyw drefniadau setlo y cytunwyd arnynt gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru a thanysgrifwyr yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion yr Amgueddfa. PENDERFYNWYD, yn unol â hynny, y dylai'r Amgueddfa gael ei chynrychioli gan yr Is-lywydd ... ac [ymddiriedolwr arall a enwir] sydd ag awdurdod i rwymo'r Amgueddfa fel a nodir uchod.'

66 Anfonodd Rheolwr Llywodraethu Amgueddfa Cymru[10] y cofnodion ôl-weithredol at yr Ymddiriedolwyr presennol i'w cymeradwyo trwy benderfyniad arbennig. Nid oedd y cofnodion yn gynhwysfawr, er eu bod yn cynnwys y penderfyniad i ddirprwyo'r cyfrifoldeb i gynrychioli Amgueddfa Cymru yn y broses gyfryngu a rhwymo'r sefydliad i unrhyw drefniadau setlo y cytunwyd arnynt gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

67 Nodaf nad oedd nifer o'r ymddiriedolwyr a lofnododd y penderfyniad arbennig ym mis Mehefin 2023 i gymeradwyo cofnodion 5 Hydref 2022, wedi bod yn y cyfarfod. Nid oedd rhai wedi cael eu penodi ar y pryd hyd yn oed. Gan nad oedd y cofnodion yn gyfoes, ni allaf fod yn sicr eu bod yn darparu cofnod cywir o'r cyfarfod. Ar ben hynny, mae gennyf amheuaeth sylweddol a oedd y penderfyniad a lofnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin 2023 yn un a oedd mewn grym yn gyfreithiol.

68 Un o'r ymddiriedolwyr y rhoddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr awdurdod dirprwyedig iddynt - gan ganiatáu iddynt rwymo Amgueddfa Cymru i unrhyw drefniadau setlo y cytunwyd arnynt gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru a thanysgrifenwyr Amgueddfa Cymru - oedd ei His-lywydd ar y pryd. Roedd yr Is-lywydd wedi'i ddynodi'n 'Swyddog' o dan ddogfennau llywodraethu Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yr ymddiriedolwr arall a benodwyd yn 'Swyddog'. Mae hyn yn arwyddocaol gan nad yw'r dogfennau llywodraethu ond yn galluogi'r Bwrdd i ddirprwyo penderfyniadau i 'Swyddogion' neu i bwyllgor o ymddiriedolwyr.

69 Nid yw cofnodion y cyfarfod ar 5 Hydref 2022 yn nodi a ddirprwywyd y penderfyniad 'i Swyddog' ynteu 'i bwyllgor'. Os mai trefniant dirprwyo i Swyddogion ydoedd, yna roedd yn ddiffygiol oherwydd nad oedd yr ail ddirprwy wedi'i gategoreiddio felly.

10 Roedd Amgueddfa Cymru wedi penodi i swydd Rheolwr Llywodraethu yn dilyn ymddeoliad Ysgrifennydd blaenorol y Bwrdd.

70 Efallai fod modd dadlau y gallai'r unigolion y dirprwywyd y penderfyniad iddynt fod yn gyfystyr â phwyllgor er na ddywedodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hynny'n benodol. Fodd bynnag, os dirprwywyd y penderfyniad i bwyllgor, nid yw'r trefniant yn cynnwys y materion eraill sy'n ofynnol gan bwyllgor, megis darpariaeth ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Rwy'n ystyried bod methiant Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i egluro ffurf y trefniant dirprwyo yr oedd yn ei roi a sut y dylai'r trefniant dirprwyo weithredu yn amryfusedd arwyddocaol o ran y trefniadau llywodraethu.

71 Rwyf hefyd yn pryderu nad yw cofnodion y cyfarfod yn cofnodi bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi gosod unrhyw derfynau na chyfyngiadau ar setliad y gellid cytuno arno o dan y trefniant dirprwyo, ac eithrio y byddai angen iddo gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a thanysgrifenwyr Amgueddfa Cymru. Nid yw'r cofnodion yn cofnodi ychwaith y byddai angen i'r ymddiriedolwyr y dirprwywyd y penderfyniad iddynt adrodd yn ôl wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar y canlyniad.

72 Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau i ymddiriedolwyr[11] sy'n nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ymddiriedolwyr elusennau. Mae'n darparu bod yn rhaid i ymddiriedolwyr:

- weithredu o fewn eu pwerau;
- gweithredu â phob ewyllys da a dim ond er budd yr elusen;
- sicrhau eu bod yn meddu ar ddigon o wybodaeth;
- ystyried yr holl ffactorau perthnasol;
- anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol;
- rheoli achosion o wrthdaro buddiannau; a
- gwneud penderfyniadau sydd o fewn yr ystod o benderfyniadau y gallai corff ymddiriedolwyr rhesymol eu gwneud.

73 Dylai ymddiriedolwyr allu dangos eu bod wedi dilyn yr egwyddorion hyn i ddangos bod eu penderfyniadau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol. Er nad oes un penderfyniad cywir y gall ymddiriedolwyr ei wneud, rhaid i bob penderfyniad fod o fewn yr ystod o benderfyniadau y gallai corff ymddiriedolwyr rhesymol eu gwneud.

11 Y Comisiwn Elusennau, Penderfynwch chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau (CC27), cyhoeddwyd gyntaf Mai 2013. Diweddarwyd y canllawiau ym mis Mehefin 2023 i adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Elusennau 2022.

74 Mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau hefyd yn cynghori bod rhaid i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n ateb gofynion cyfraith elusennau a'u dogfen lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys:

- dilyn unrhyw ofynion penodol yn y ddogfen lywodraethu ynghylch gwneud penderfyniadau a chynnal cyfarfodydd;
- gwneud penderfyniadau ar y cyd (gyda'i gilydd), gan sicrhau bod pob ymddiriedolwr yn cael y cyfle i gymryd rhan;
- os ydynt yn defnyddio pŵer i wneud penderfyniadau y tu allan i gyfarfod, dilyn darpariaethau›r pŵer hwn yn llym;
- os ydynt yn dirprwyo i staff neu is-bwyllgorau, bod â gweithdrefnau adrodd a llinellau atebolrwydd clir a chadarn; a
- chofnodi penderfyniadau'n iawn, fel nad oes amheuaeth ynghylch yr hyn a benderfynwyd a pham.

75 Felly, yn fy marn i, cyn dirprwyo pwerau yng nghyfarfod 5 Hydref 2022 i ddau ymddiriedolwr weithredu ar eu rhan, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod wedi:

- nodi'n benodol y gwrthdaro buddiannau o ran y Llywydd ac unrhyw achosion eraill o wrthdaro buddiannau, a phenderfynu sut y dylid rheoli'r achosion hyn o wrthdaro buddiannau;
- nodi eu pwerau perthnasol gan gynnwys y pŵer i setlo a'r pŵer i ddirprwyo;
- sicrhau eu bod wedi cael ac ystyried yr holl gyngor angenrheidiol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol allanol, mewn perthynas â'r cyfryngu arfaethedig, cryfder yr hawliadau cyflogaeth, telerau a therfynau priodol ar gyfer y setliad ac ati;
- dangos eu bod wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac wedi anwybyddu ffactorau amherthnasol; ac
- ystyried a phenderfynu'n benodol beth oedd er budd pennaf Amgueddfa Cymru.

76 Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod wedi cofnodi'r materion hyn yn y cofnodion, a rhai materion sylfaenol, megis a oedd y cyfarfod yn un â chworwm, er mwyn gallu dangos ei fod wedi gwneud ei benderfyniad yn iawn ac er budd pennaf yr elusen.

77 Nid yw cofnodion y cyfarfod ar 5 Hydref 2022 (a chyfarfodydd eraill y Bwrdd) yn cofnodi bod y materion hyn wedi cael eu hystyried. O ganlyniad, yn fy marn i, ni all Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ddangos yn ddigonol ei fod wedi cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

78 Mae gen i bryder sylweddol hefyd ynghylch cwmpas a thelerau'r trefniant dirprwyo ei hun. Fel mater o lywodraethu da, ac fel a adlewyrchir yng nghanllawiau'r Comisiwn Elusennau y cyfeirir atynt ym mharagraffau **72 i 74**, byddwn wedi disgwyl i'r trefniant dirprwyo nodi:

- terfynau eglur ar gyfer y trefniant dirprwyo – yn yr achos hwn, y terfynau ariannol a therfynau eraill ar gyfer setliad, yr hyn y mae'r rhai y dirprwywyd y penderfyniad iddynt wedi'u awdurdodi i'w wneud, gofyniad i geisio cyngor cyfreithiol ar y telerau yn ystod y broses gyfryngu a chyn rhwymo Amgueddfa Cymru ac ati;
- gofyniad i atgyfeirio penderfyniad yn ôl at y Bwrdd cyfan i'w gymeradwyo y tu allan i'r paramedrau hynny y cytunwyd arnynt;
- awdurdod i lofnodi'r ddogfennaeth setlo; a
- gofynion ar gyfer adrodd yn ôl wrth y Bwrdd llawn ar gynnydd gyda'r broses gyfryngu a'i chanlyniad.

79 Mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau hefyd yn nodi, pan fo Ymddiriedolwyr yn dirprwyo penderfyniadau, bod yn rhaid iddynt fod â gweithdrefnau adrodd a llinellau atebolrwydd clir a chadarn er mwyn sicrhau bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei arfer yn briodol. Ni ddylid dirprwyo penderfyniadau risg uchel ac anarferol. Yn fy marn i, roedd trefniadau setlo y cytunodd Amgueddfa Cymru arnynt gyda'i Chyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol. Felly, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, ni ddylent fod wedi cael eu dirprwyo.

80 Yn fy marn i, mae cwmpas y trefniant dirprwyo y cytunwyd arno yn y cyfarfod ar 5 Hydref 2022 yn aneglur. Mae'r penderfyniad yn syml yn darparu 'y dylai'r Amgueddfa gael ei chynrychioli gan yr Is-lywydd, ... ac ymddiriedolwr arall [yn y cyfarfod cyfryngu] sydd ag awdurdod i rwymo'r Amgueddfa'.

81 Fe wnaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyn-Lywydd, ymddiriedolwr arall ar ran Amgueddfa Cymru, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, y cyfryngwr, a chynrychiolwyr cyfreithiol pob un o'r partïon i gyd lofnodi cytundeb cyfryngu dyddiedig 11 Hydref 2022, a baratowyd gan y cyfryngwr penodedig.

82 Ar 20 Hydref 2022, penderfynodd Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru, ar ôl ystyried cyngor cyfreithiol, y byddai cost ffioedd cyfreithiol y Cyn-Lywydd mewn perthynas â'r anghydfod yn cael eu talu gan Amgueddfa Cymru. Nid yw Amgueddfa Cymru wedi ysgwyddo ffioedd cyfreithiol y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

83 Yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 14 Tachwedd 2022, cynhaliwyd cyfarfodydd pellach rhwng y cyfryngwr a phob un o'r partïon i ddod i gytundeb ar setliad y gallai pob parti ei dderbyn. Yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn roedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, ei Llywydd, ymddiriedolwr arall, a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru a'u cynrychiolwyr. Dywedodd y Llywydd ar y pryd y canlynol wrth fy archwilwyr:

"Nid ymgynghorwyd â mi mewn perthynas â'r telerau y cytunwyd arnynt gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a barodd iddo dynnu'r cwynion yr oedd wedi'u cyflwyno i Dribiwnlys Cyflogaeth Cymru yn ôl ac nid oeddwn yn gyfrifol am y telerau hynny".

84 Yn dilyn y cyfarfodydd cyfryngu, deallaf fod y ddau aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y dirprwywyd awdurdod iddynt wedi cyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol Amgueddfa Cymru i lunio dogfen 'Penawdau'r Telerau' yn seiliedig ar yr hyn y cytunwyd arno yn y broses gyfryngu. Fodd bynnag, gellir dadlau nad oedd y trefniant dirprwyo ond yn cwmpasu'r broses gyfryngu ac nad oedd yn ymestyn i gymeradwyo Penawdau'r Telerau.

85 Byddwn hefyd wedi disgwyl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fod wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am Benawdau'r Telerau a'r Cytundeb Setlo, er mwyn galluogi'r Bwrdd i gydymffurfio â'u dyletswyddau goruchwylio ac atebolrwydd.

86 I grynhoi, roedd y broses benderfynu a oedd yn ymwneud â datrys yr anghydfod cyflogaeth gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, yn fy marn i, yn ddiffygiol yn sylfaenol gan na wnaeth Amgueddfa Cymru:

- ddangos ei bod wedi rhoi sylw i'r holl ystyriaethau allweddol;
- cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau;
- cydymffurfio â'i Siarter Frenhinol a'i Statudau;
- dogfennu ei phroses benderfynu'n ddigonol.

## Mae telerau'r cytundeb setlo ar gyfer y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n cynnwys cyfanswm costau posibl o £325,698, yn fy marn i, yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol ac nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er ei budd pennaf fel elusen na bod y setliad yn cynrychioli gwerth am arian

87 Ar 17 Tachwedd 2022, llofnodwyd dogfen 'Penawdau'r Telerau' gan Gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, ei Chyn-Lywydd, ei chynrychiolydd cyfreithiol penodedig, a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Cyn-Lywydd y canlynol wrth fy archwilwyr:

"Roedd y telerau a oedd yn ymwneud â'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi cael eu negodi gydag Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, nid oedd gan [y Cyn-Lywydd] unrhyw gyfrifoldeb am y negodiadau hynny."

88 Roedd y ddogfen 'Penawdau'r Telerau' yn nodi fel a ganlyn:

- byddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn camu'n ôl ar unwaith o'i rôl fel Cyfarwyddwr Cyffredinol am resymau iechyd ond byddai'n cyflawni rhai ymrwymiadau penodedig fel a gytunwyd gydag Amgueddfa Cymru.
- byddai Amgueddfa Cymru'n talu'r swm o £50,000 yn ddi-dreth i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel digollediad am niwed i'w deimladau heb i Amgueddfa Cymru dderbyn atebolrwydd, ac ar yr amod y byddai'n tynnu ei ddau hawliad gerbron y tribiwnlys cyflogaeth yn ôl.
- o 1 Ebrill 2023, byddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithio cyfnod rhybudd o 18 mis, pan fyddai ar absenoldeb sabothol. Byddai'n treulio 12 mis cyntaf ei gyfnod rhybudd ar ei delerau ac amodau cyflogaeth presennol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, er na fyddai'n ofynnol iddo gyflawni rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac na fyddai'n dal y teitl mwyach. Yn ystod chwe mis olaf ei gyfnod rhybudd, byddai'n gweithio dau ddiwrnod yr wythnos, unwaith eto ar ei delerau ac amodau cyflogaeth cyfredol, ar sail pro rata i adlewyrchu'r ffaith na fyddai'n llawn-amser mwyach.
- yn ystod y cyfnod rhybudd hwn o 18 mis, 'Cymrawd Emeritws yr Amgueddfa' fyddai teitl ei swydd.

- byddai Amgueddfa Cymru'n cyfrannu uchafswm o £7,500 yn 2023-24 a 2024-25, felly hyd at £15,000 ar y cyfan, i dalu costau teithio a chynhaliaeth (yn amodol ar ddarparu anfonebau priodol). O ran y sefyllfa ar 22 Awst 2023, nid oedd unrhyw hawliadau wedi cael eu gwneud.
- byddai Amgueddfa Cymru'n cyfrannu uchafswm o £7,500 yn 2023-24 a 2024-25, felly hyd at £15,000 ar y cyfan, oherwydd costau gweinyddol (eto, yn amodol ar ddarparu anfonebau priodol). O ran y sefyllfa ar 22 Awst 2023, nid oedd unrhyw hawliadau wedi cael eu gwneud.
- ar 30 Medi 2024, byddai ei gyflogaeth gydag Amgueddfa Cymru'n dod i ben gyda thaliad pellach o £20,000 am golli swydd.

89 Roedd y ddogfen Penawdau'r Telerau hefyd yn nodi, gyda'r hawliadau gerbron y tribiwnlys cyflogaeth wedi'u tynnu'n ôl, y byddai'r Cyn-Lywydd yn camu'n ôl o'i rôl o 17 Tachwedd 2022 ac y byddai›n rhoi›r gorau i›w swydd ar 31 Rhagfyr 2022, dri mis yn gynharach nag yr oedd ei dymor i fod i ddod i ben.

90 Er na fynegir hynny yn nogfen Penawdau'r Telerau, roedd cyflog y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol am y cyfnod pan oedd wedi camu'n ôl o'i rôl hyd at 31 Mawrth 2023 yn £39,794. Mae ei gyflog am y cyfnod o 18 mis rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024 yn £130,073 ar gyfraddau cyflogau 2022-23 ac yn amodol ar chwyddiant cyflogau yn y dyfodol. Mae cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiynau disgwyliedig Amgueddfa Cymru am y cyfnod rhwng 17 Tachwedd 2022 a 30 Medi 2024 yn £55,831 pellach.

91 Yn dilyn cytuno ar ddogfen Penawdau'r Telerau, fe wnaeth y ddau aelod y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt gyfarwyddo ymgynghorwyr cyfreithiol Amgueddfa Cymru i lunio cytundeb setlo ysgrifenedig yn seiliedig ar Benawdau'r Telerau. Roedd hwn i fod i nodi manylion penodol y cytundeb a chyfrifoldebau pob un o'r partïon a oedd yn rhan ohono.

92 Ar 5 Rhagfyr 2022, fe wnaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyn-Lywydd, Is-lywydd Amgueddfa Cymru ar ran Amgueddfa Cymru a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru lofnodi'r cytundeb setlo. Fe wnaeth hwn setlo'r anghydfod heb dderbyn atebolrwydd.

93 Rwyf wedi disgrifio fy mhryder am y trefniant dirprwyo a roddwyd ar 5 Hydref i'r Is-lywydd i lofnodi'r Cytundeb Setlo ar ran Amgueddfa Cymru (gweler **paragraffau 74 i 86**). Mae'n ymddangos bod telerau'r trefniant dirprwyo'n darparu awdurdod ar y cyd i'r rhai y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt tra bo'r Cytundeb Setlo wedi'i lofnodi gan un ohonynt yn unig. Felly, rwy'n ystyried yn hyn o beth nad yw'r trefniant dirprwyo'n cyrraedd safonau llywodraethu disgwyliedig.

94 Ar y cyfan, roedd cyfanswm gwerth ariannol gwahanol elfennau'r cytundeb setlo mewn perthynas â'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn £325,698. Mae'r rhan fwyaf o'r gost hon yn dod i ran Amgueddfa Cymru er i Lywodraeth Cymru gyfrannu £10,000 tuag at y digolllediad am niwed i deimladau a bod Amgueddfa Cymru wedi talu £38,000 arall o'r gost honno trwy yswiriant. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu £10,000 tuag at y taliad am golli swydd (gweler **paragraff 115**).

95 Mae swm y setliad yn sylweddol ac, yn fy marn i, yn anarferol, yn ddadleuol ac yn adleisiol. Rwyf wedi nodi rhai meysydd allweddol sy'n peri pryder isod:

- mae'r llysoedd wedi gosod canllawiau clir ar gyfer dyfarnu digolllediad lle mae hawlydd yn hawlio'n llwyddiannus y bu niwed i'w deimladau. Mae tri band (y bandiau isaf, canol, ac uchaf), sy'n cynyddu bob blwyddyn. Roedd y band uchaf, a gedwir ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, megis lle bu ymgyrch hir o aflonyddu gwahaniaethol, rhwng £29,600 a £49,300 ar yr adeg yr ymrwymwyd i'r cytundeb setlo. Mae gan dribiwnlys awdurdodaeth i wneud dyfarniadau y tu hwnt i derfyn uchaf y band uchaf, ond mae hyn yn rhywbeth prin iawn, ac fe'i cedwir ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Roedd y digolllediad y cytunwyd arno gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer yr elfen hon o'i setliad ychydig yn uwch na phwynt uchaf y band. Mae Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi dweud wrth fy archwilwyr, gan bod y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi gwneud dau hawliad ar wahân a gwahanol gerbron tribiwnlys cyflogaeth, mewn egwyddor y gallai hyn fod wedi arwain at ddau ddyfarniad 'niwed i deimladau' neu 'golli cyflogaeth'
- i bob pwrpas, roedd y cytundeb setlo'n darparu cyfnod rhybudd o ychydig dros 22 mis i'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol. Fodd bynnag, roedd contract cyflogaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn nodi cyfnod rhybudd o 12 mis (byddai hyn wedi bod yn daladwy pe bai Amgueddfa Cymru wedi terfynu contract y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar unwaith). Am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024 roedd dogfen Penawdau'r Telerau'n nodi'n benodol y byddai'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol 'yn peidio â bod o dan unrhyw rwymedigaeth ac ni fydd yn atebol i Amgueddfa Cymru heblaw yn y modd a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn' (h.y. i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yn y cytundeb setlo sy'n rhwymo'n gyfreithiol).

- yn ystod y cyfnod pan oedd wedi camu'n ôl o'i rôl rhwng 17 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023, roedd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol i bob pwrpas wedi'i roi ar gyfnod o 'absenoldeb garddio'. Nid oedd yn ofynnol iddo gyflawni gwasanaethau ar ran Amgueddfa Cymru - ar wahân i fynychu nifer fechan o gyfarfodydd, gan gynnwys taith i Qatar ym mis Tachwedd 2022 - ond parhawyd i dalu ei gyflog arferol iddo.
- nid yw hyd a lled y dyletswyddau y bydd y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn eu cyflawni fel Cymrawd Emeritws yr Amgueddfa rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024 wedi'u nodi ac, yn seiliedig ar y darpariaethau a nodir uchod, ni fydd atebolrwydd i Amgueddfa Cymru am y rôl hon. Yn berthnasol i'r darpariaethau ar gyfer treuliau, fodd bynnag, roedd dogfen Penawdau'r Telerau'n nodi:

  "I osgoi amheuaeth, bydd [y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol] yn cael mynd i Gynhadledd Cymdeithas Amgueddfeydd America yn Denver yn 2023 a 2024, a hefyd dwy o Gynadleddau Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn 2023 a 2024."
- mae'r telerau'n cynnwys taliad ychwanegol o £20,000 ar ffurf digolledIad am derfynu cyflogaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol ar 30 Medi 2024, er gwaethaf y cyfnod rhybudd estynedig.

96 Fel a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru weithredu er budd pennaf yr elusen a sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n ddigon gwybodus, yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol ac yn anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol. Felly, rhaid i benderfyniadau ymddiriedolwyr a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny gael eu cofnodi'n briodol i ddangos bod ymddiriedolwyr wedi gwneud penderfyniadau er budd pennaf yr elusen. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos mater mor sensitif ag Amgueddfa Cymru'n ymrwymo i setliad gyda'i Chyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

97 Fe'm hysbysir bod Amgueddfa Cymru wedi ceisio cyngor gan ei hymgynghorwyr cyfreithiol allanol trwy gydol yr anghydfod cyflogaeth. Felly, mae'n bosibl bod gwybodaeth wedi bod ar gael y gallai ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru fod wedi'i hystyried ac a fyddai wedi helpu i gyfiawnhau swm a strwythur y setliad.

98 Fodd bynnag, nid yw Amgueddfa Cymru a Bwrdd ei Hymddiriedolwyr wedi gallu darparu tystiolaeth ddogfennol gyfoes i'm harchwilwyr:

- eu bod wedi cael cyngor ar y tebygolrwydd y byddai'r hawliad yn y tribiwnlys cyflogaeth yn llwyddiannus, ac ar y risgiau a gwerth yr hawliad ac ati;
- bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi pennu unrhyw derfynau neu gyfyngiadau ar y setliad y gellid cytuno arno o dan y trefniant dirprwyo; na
- bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar fecanwaith i'r rhai y dirprwywyd y penderfyniad iddynt ei hysbysu ynghylch y cynnydd a wnaed.

99 Felly, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru wedi rhoi sylw i'r holl ystyriaethau perthnasol ac wedi diystyru ystyriaethau amherthnasol wrth gytuno ar delerau'r setliad gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol.

100 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr, ar gefn sefyllfa anodd iawn a maith, y gellir yn rhesymol ystyried bod "y setliad y cytunwyd arno ar y cyfan, a oedd yn cynnwys cytuno i setlo hawliadau niferus a gwneud trefniadau ar gyfer ymadawiad urddasol y Cyn-Lywydd a'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol" yn "ganlyniad cost isaf da i bwrs y wlad".

101 Dywedodd Amgueddfa Cymru wrth fy archwilwyr fod "y trefniadau setlo y cytunwyd arnynt gyda'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyn-Lywydd a Llywodraeth Cymru'n cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus".

102 Yn fy marn i, nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu dangos ei bod wedi gweithredu er ei budd pennaf fel elusen na bod y setliad yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.

## Yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n barti i'r cytundeb setlo a'r anghydfod hirsefydlog a arweiniodd ato, nid yw hi'n glir i mi a ddefnyddiodd yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer ei hystyriaeth a'i chymeradwyaeth hi ei hun i'r cytundeb

103 Pan wneir penderfyniad yr ystyrir ei fod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol, mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau penodol y mae'n disgwyl i'w chyrff hyd braich eu dilyn. Disgrifir y rhain yn y 'trefniadau galw-i-mewn' a nodir i reoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich.

104 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau galw-i-mewn diwygiedig yn 2019 ac fe gyfleodd y rhain i'w chyrff hyd braich[12]. Ar adeg y digwyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn nid oedd y Ddogfen Fframwaith sy'n rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r trefniadau diwygiedig. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'i chyrff hyd braich ar newidiadau i'r dogfennau fframwaith yn gynharach yn 2023.

105 Dylai trefniadau galw-i-mewn gael eu hadlewyrchu yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[13], sy'n nodi'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli arian cyhoeddus. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus 'gyfeirio unrhyw faterion yr ymddengys eu bod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol at y Gangen sy'n eu noddi'. Mae hefyd yn dweud y 'Dylai cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru weithredu i'r un safonau hyn oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny (gofynion hollbwysig sy'n gymwys o dan y Ddeddf Cwmnïau, er enghraifft). Mae'n rhaid i Ganghennau noddi sicrhau bod eu trefniadau goruchwylio (gweler Pennod 7) yn eu galluogi i fod yn fodlon bod eu cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r safonau'.

12 Llywodraeth Cymru, DAO (Cymru) 02/19 – Trefniadau galw-i-mewn, Gorffennaf 2019
13 Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016

106 Mae'r trefniadau galw-i-mewn diwygiedig yn disgrifio gweithdrefnau gwahanol i'r rhai yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, lle mae penderfyniadau'n cael eu categoreiddio'n rhai 'cymeradwyo' neu 'raghysbysu' gan ddibynnu ar y penderfyniad a wneir. Mae penderfyniad yr ystyrir ei fod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol[14] yn dod o dan 'drefniadau rhaghysbysu'. Mewn amgylchiadau o'r fath, y disgwyliad yw y byddai'r Prif Weithredwyr [neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt] yn hysbysu'r is-adran sy'n eu noddi yn Llywodraeth Cymru ynghylch y penderfyniad arfaethedig i alluogi Llywodraeth Cymru i roi cyngor priodol. Roedd y trefniadau'n nodi, ar y cyd â thimau polisi priodol Llywodraeth Cymru, y byddai'r is-adran sy'n noddi'n paratoi cyngor i'w drafod gydag Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a fyddai yn ei thro'n ceisio cyngor ysgrifenedig Canolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol Llywodraeth Cymru ac unrhyw gorff arall sydd ag arbenigedd yn y mater.

107 Nid oes disgwyliad cyffredinol bod gofyn cael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Gweinidog ar gyfer penderfyniadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r trefniadau'n darparu ar gyfer 'cyngor pellach' mewn perthynas â'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog, 'fel y bo'n briodol'. Maent hefyd yn nodi, os bydd y corff yn penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, y gall yr is-adran sy'n noddi gyfeirio'r mater at y Gweinidog perthnasol. Mae'r trefniadau'n dynodi bod Gweinidogion yn cadw'r hawl i wrthod penderfyniad a wnaed gan gorff cyhoeddus sydd, ar ôl trafodaeth, yn un nad oes modd ei gyfiawnhau.

108 Er y gellid dadlau bod trefniadau galw-i-mewn diwygiedig Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ei llythyr ym mis Gorffennaf 2019 yn disodli gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, nid yw'r croesddweud rhwng y ddau yn ffafriol i stiwardiaeth gadarn ar arian cyhoeddus. Ym mis Ebrill 2020, dynododd Llywodraeth Cymru wrth Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yr effeithiwyd ar ddiweddariad arfaethedig i Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru gan y brigiad o achosion o COVID-19. Nid oes fersiwn ddiwygiedig o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru wedi cael ei chynhyrchu eto.

109 Yn yr achos hwn, roedd Llywodraeth Cymru ei hun yn barti i'r cytundeb setlo a'r anghydfod hirsefydlog a arweiniodd ato. Cymerodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ran yn y broses gyfryngu, gan gynnwys cytuno ar Benawdau'r Telerau a llofnodi'r cytundeb setlo (gweler **paragraffau 81 i 93**).

14 Gan gynnwys, ymhlith eraill, gynigion sydd: yn ansafonol i'r sector; yn sensitif yn wleidyddol a/neu'n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau; a allai arwain at ganlyniadau digroeso i'r sefydliad a/neu i'r sector cyhoeddus ehangach; neu a allai osod cynsail i'r sector a'r sector cyhoeddus ehangach.

110 O ystyried bod Llywodraeth Cymru ei hun yn barti i'r cytundeb a'i bod wedi cyfrannu at y gost ar y cyfan, rwyf o'r farn y byddai wedi bod yn ddoeth iddi ystyried y cynigion o dan y gofynion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer taliadau arbennig yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru er gwaethaf y trefniadau galw-i-mewn diwygiedig ar gyfer cyrff hyd braich. O dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, byddai wedi bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth Prif Weinidog Cymru i'r cytundeb setlo (taliad diswyddo arbennig[15]).

111 Yn fwy cyffredinol, rwyf o'r farn bod amgylchiadau'r achos hwn yn codi cwestiynau ynghylch eglurder a chadernid prosesau ar gyfer craffu ar gynigion sy'n berthnasol i'r trefniadau galw-i-mewn ar gyfer cyrff hyd braich lle mae Llywodraeth Cymru ei hun yn barti sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r mater.

112 Mae fy nhîm archwilio wedi gweld negeseuon e-bost a gyfnewidiwyd rhwng yr is-adran sy'n noddi yn Llywodraeth Cymru a'i huned llywodraethu corfforaethol ynghylch y cytundeb setlo. Nid yw hyd a lled yr ymwneud gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn glir o'r dystiolaeth y mae fy nhîm wedi'i chael. Nid yw fy nhîm archwilio wedi cael unrhyw gyngor ysgrifenedig penodol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Amgueddfa Cymru ynghylch y cytundeb setlo ei hun, er bod Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r broses honno.

113 Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi gweld Cyngor Gweinidogol gan yr adran sy'n noddi i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip dyddiedig 6 Rhagfyr 2022. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth fy archwilwyr fod y Cyngor Gweinidogol yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a gafodd. Anfonwyd copi o'r Cyngor Gweinidogol at Brif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Gweinidog yr Economi, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

114 Roedd y cyngor yn nodi bod y setliad arfaethedig yn codi materion anarferol a dadleuol ac yn nodi, 'Mae swyddogion sy'n rhan o'r cytundeb cyfryngu yn credu y gellir cyfiawnhau'r pecyn er mwyn dod i gytundeb a helpu i ddatrys y sefyllfa barhaus'. Nid oedd cyfanswm gwerth sylweddol a llawn y setliad - fel y'i crynhoir yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn – wedi'i nodi yn y cyngor.

115 Roedd y cyngor yn crynhoi canlyniad y broses gyfryngu a'r cytundeb setlo y daethpwyd iddo. Er ei fod yn nodi manylion penodol am y cyfnod camu'n ôl rhwng 17 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023 a'r trefniadau cyflogaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2024, nid oedd y cyngor yn nodi'r costau cyflogaeth a fyddai'n codi o'r trefniadau hynny nac yn egluro mai 12 mis oedd cyfnod rhybudd cytundebol y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol (gweler **paragraff 89**).

15 Telir taliadau diswyddo arbennig i gyflogeion, contractwyr, ac eraill y tu allan i ofynion statudol neu gytundebol arferol, pan ydynt yn gadael cyflogaeth mewn gwasanaeth cyhoeddus, pa un a ydynt yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo ynteu'n dod i gytundeb ynglŷn â therfynu eu contract.

116 Nid oedd y cyngor yn ceisio cymeradwyaeth gyffredinol ar gyfer y cytundeb, ond roedd yn gofyn i'r Gweinidog gytuno i anfon llythyrau at y Cyn-Lywydd a'r Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol yn diolch iddynt am eu gwasanaeth, cytuno ar drefniadau dros dro ar gyfer dyletswyddau'r Llywydd, a chyhoeddi datganiad ar newidiadau i Fwrdd Amgueddfa Cymru. Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru'r datganiad hwnnw ar 9 Rhagfyr 2022[16].

117 Mae'r cyngor yn awgrymu bod y symiau a oedd yn gysylltiedig â'r digollediad am niwed i deimladau ac am golli cyflogaeth yn rhesymol. Yn achos niwed i deimladau, roedd y cyngor yn cymharu hyn â chostau posibl (heb eu meintioli) amddiffyn achos yn y tribiwnlys a'r rhagolygon tebygol o lwyddiant. Nodaf fod y cyngor yn nodi bod y swm o £50,000 am niwed i deimladau 'yn y dosbarth uchaf o ddyfarniadau am niwed i deimladau y gall Tribiwnlys Cyflogaeth eu dyfarnu'. Nid oedd yn ei gwneud yn glir mai £29.600 i £49,300 oedd y band uchaf ar gyfer dyfarniadau o'r fath, er y gall tribiwnlysoedd wneud dyfarniadau uwch mewn achosion eithriadol (ac y gallant wneud mwy nag un dyfarniad os yw'r hawlydd wedi gwneud mwy nag un hawliad ar wahân a gwahanol).

118 Roedd y cyngor yn awgrymu bod y digollediad o £20,000 am golli cyflogaeth yn rhesymol o ystyried hyd gwasanaeth y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'r ymrwymiad a ddangosodd i Amgueddfa Cymru.

119 Roedd y cyngor yn ymdrin â goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru. Roedd yn ceisio cytundeb y Dirprwy Weinidog i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i Amgueddfa Cymru mewn dau gyfraniad ar wahân o £10,000 tuag at y digollediad o £50,000 ar y cyfan am niwed i deimladau a'r taliad o £20,000 am derfynu cyflogaeth. Roedd hefyd yn ceisio cytundeb i Lywodraeth Cymru gyfrannu hyd at £30,000 (er mai tua £20,000 y disgwylir iddo fod)[17] tuag at gostau'r broses gyfryngu ei hun.

120 Ymhlith y materion eraill a oedd wedi'u cynnwys yn y cyngor roedd cytundeb i Gyn-Lywydd Amgueddfa Cymru arwain adolygiad llywodraethu o statws Cadw (a gyhoeddwyd wedyn gan Lywodraeth Cymru ar 12 Rhagfyr 2022[18]). Roedd hefyd yn ceisio cytundeb ynghylch costau a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch recriwtio ar gyfer Llywydd ac Is-lywydd newydd (sef hyd at £40,000 yn ôl y cyngor).

16 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Diweddaraf am Amgueddfa Cymru, 9 Rhagfyr 2022

17 Yn ymarferol, cyfrannodd Llywodraeth Cymru £20,500 tuag at y costau cyfryngu (gweler **paragraff 57**). Mae'r cyfraniadau tuag at ddigollediad am niwed i deimladau ac am derfynu cyflogaeth fel a nodwyd

18 Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, 14 Rhagfyr 2022

# Argymhellion

121 Rwy'n cyflwyno argymhellion i Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n deillio o rai agweddau penodol ar yr achos hwn.

122 Fel a nodir ym **mharagraff 14**, mae'r Adolygiad wedi'i Deilwra diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi gwneud ei argymhellion ei hun ar faterion ehangach sy'n berthnasol i Amgueddfa Cymru a'i threfniadau llywodraethu.

123 Deallaf hefyd, fel rhan o'r broses gyfryngu ar gyfer yr anghydfod cyflogaeth, fod y Cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi gofyn bod gwersi'n cael eu dysgu o'r broses ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

124 Dylai'r adroddiad hwn gael ei ddarllen yn fwy cyffredinol hefyd fel nodyn atgoffa i bob corff cyhoeddus ynglŷn â phwysigrwydd cymhwyso fframweithiau ac egwyddorion llywodraethu i ddiogelu arian cyhoeddus a hyder y cyhoedd.

## Tabl yr argymhellion

A1 Dylai Amgueddfa Cymru adolygu ei threfniadau rheolaeth fewnol i sicrhau bod ganddi fesurau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn Elusennau: Penderfynwch chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau (CC27).

A2 Gan dynnu ar yr hyn a ddysgwyd o'r anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'i chyrff hyd braich i sicrhau bod polisïau cwynion cyflogaeth a pholisïau chwythu'r chwiban yn ymdrin â'r senario o ran pryderon a godir gan eu swyddogion uchaf eu rheng a/neu a gyfeirir at aelodau'r Bwrdd a sicrhau cysondeb eang o ran y dull gweithredu.

A3 Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn amgylchiadau fel yr anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru lle mae hi ei hun yn barti i gynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol sy'n codi o'i chyrff hyd braich.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.